



Safon UG a Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach

Cyflwyniad

Mae'r cymwysterau Safon Uwch mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach yn cael eu diwygio yng Nghymru i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2017. Caiff y cymwysterau Safon Uwch diwygiedig eu llunio a'u cyflwyno gan CBAC a dyma fydd yr unig fersiynau o'r cymwysterau fydd ar gael i ddysgwyr ar raglenni a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru, gan nad oes unrhyw fwrdd arholi arall wedi penderfynu datblygu'r cymwysterau hyn i'w defnyddio yng Nghymru. Fel rhan o'r broses ddiwygio, rydym yn ceisio barn ar ein cynigion o ran cynnwys, strwythur ac asesiad y cymhwyster diwygiedig.

Rydym wedi llunio'r cynigion yn yr holiadur hwn mewn ymgynghoriad â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys y corff dyfarnu, CBAC, ymarferwyr mewn ysgolion a cholegau, prifysgolion, Estyn a Llywodraeth Cymru. Bydd canlyniadau'r holiadur hwn yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu meini prawf ac amodau cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau Safon Uwch newydd mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach. Caiff y manylbau a'r deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer y cymwysterau newydd hyn eu llunio a'u cymeradwyo ar sail y meini prawf cymeradwyo a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru.



Safon UG a Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach

Nodau a chynnwys pwnc

Nodau ac amcanion dysgu pwnc

Gellir dod o hyd i'r meini prawf pwnc presennol ar gyfer y cymwysterau Safon Uwch mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach yn y ddolen isod:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/371173/11-10-18-gce-maths.pdf

Cynigiwn y caiff y nodau pwnc presennol eu defnyddio fel nodau a deilliannau dysgu pwnc ar gyfer y cymwysterau Safon Uwch diwygiedig mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach yng Nghymru.

C1: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid defnyddio'r nodau pwnc presennol yn y cymwysterau Safon Uwch diwygiedig mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



Safon UG a Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach

Cynnwys pwnc

Mae'r cymwysterau Safon Uwch mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach ymhlith nifer o gymwysterau sydd wedi cael eu hadolygu gan y Bwrdd Cynghori ar Gynnwys Safon Uwch. Gellir dod o hyd i'r adroddiad llawn yn y ddolen isod:

<https://alevelcontent.files.wordpress.com/2014/07/alcab-report-on-mathematics-and-further-mathematics-july-2014.pdf>

Gwnaeth Panel Mathemateg a Mathemateg Bellach y Bwrdd Cynghori ar Gynnwys Safon Uwch nifer o argymhellion o ran cynnwys pwnc. Rhestrir yr argymhellion hyn isod:

Argymhelliad 1: Dylai 100 y cant o gynnwys y cymhwyster sengl Safon Uwch mewn Mathemateg gael ei ragnodi'n ganolog

Argymhelliad 5: Ar gyfer [y cymhwyster Safon Uwch mewn] Mathemateg Bellach, mae'r panel o'r farn y dylai canran graidd o 50% gael ei rhagnodi

Argymhelliad 6: Ar gyfer y cymhwyster Safon UG mewn Mathemateg Bellach, rhaid i o leiaf 30% o'r cynnwys gael ei godi o ddeunydd rhagnodedig y cymhwyster Safon Uwch mewn Mathemateg Bellach a rhaid iddo gynnwys matricesau a rhifau cymhleth

Argymhelliad 7: Dylai'r cynnwys sydd yn y modiwlau 'Mathemateg Penderfyniad' ar hyn o bryd gael ei dynnu o'r cymhwyster Safon Uwch Mathemateg yn llwyr

Mae'r Adran Addysg yn Lloegr wedi rhagnodi'r cynnwys ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch mewn Mathemateg i gyd a 50% o'r cymhwyster Safon Uwch mewn Mathemateg Bellach. Rhaid i bob corff dyfarnu ddefnyddio'r cynnwys hwn yn y cymwysterau Safon Uwch diwygiedig mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach yn Lloegr. O fewn y cymhwyster Safon Uwch Mathemateg, mae hyn yn golygu nad oes unrhyw unedau dewisol a bod rhaid i bob dysgwr astudio mathemateg craidd, mecaneg ac ystadegau fel rhan o'r cymhwyster Safon Uwch Mathemateg. Gellir dod o hyd i'r cynnwys a ragnodwyd gan yr Adran Addysg yn Lloegr yn y dolenni isod:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/513764/GCE_AS_and_A_level_subject_content_for_mathematics_with_appendices.pdf

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/513769/GCE_AS_and_A_level_subject_content_for_further_mathematics.pdf

Cynigiwn fabwysiadu argymhellion y Bwrdd Cyngori ar Gynnwys Safon Uwch, ac felly'r cynnwys pwnc a ragnodwyd gan yr Adran Addysg yn Lloegr, ond gyda mân addasiadau i'r cynnwys pwnc (yn benodol yng nghynnwys ystadegau'r cymwysterau Safon UG a Safon Uwch mewn Mathemateg a symud testunau fel mudiant harmonig syml o'r cynnwys UG i gynnwys Safon A2 dewisol y cymhwyster Safon Uwch mewn Mathemateg Bellach). Byddai hyn yn sicrhau cysondeb â'r cymwysterau Safon Uwch mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach yn Lloegr, ond hefyd yn rhoi cysondeb cliriach o ran cynnwys y ddau gymhwyster, gan ei gwneud yn bosibl iddynt gael eu cyflwyno yn olynol neu ar yr un pryd.

C2a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r argymhelliad a ddisgrifir uchod ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch mewn Mathemateg yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

C2b: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r argymhelliad a ddisgrifir uchod ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch mewn Mathemateg Bellach yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



Safon UG a Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach

Strwythur asesu

Mae'r cymhwyster Safon Uwch presennol mewn Mathemateg yn cynnwys chwe uned sydd wedi'u pwysoli'n hafal. Mae pedair uned yn orfodol (Craidd 1, Craidd 2, Craidd 3 a Chraidd 4) ac mae dwy uned yn ddewisol, a gallant gynnwys unedau mewn Mecaneg, Ystadegau neu Fathemateg Penderfyniad.

Ar hyn o bryd, mae'r cymhwyster Safon Uwch mewn Mathemateg Bellach yn adeiladu ar unedau a gyflawnwyd yn y cymhwyster Safon Uwch mewn Mathemateg. Rhaid i fyfyrwyr astudio cyfanswm o chwe uned sy'n cynnwys dwy uned orfodol mewn Mathemateg Bur a phedair uned arall a all gwmpasu unrhyw gyfuniad o Fathemateg Bur, Mecaneg, Ystadegau neu Fathemateg Penderfyniad.

Yn y cymwysterau Safon Uwch diwygiedig yng Nghymru, caiff pwysoliadau asesu'r cymhwyster Safon Uwch llawn eu rhannu, gyda deilliannau'r asesiadau Safon UG a'r asesiadau Safon A2 yn cyfrannu 40% a 60%, yn y drefn honno, at y cymhwyster Safon Uwch llawn.

Gan ystyried yr argymhellion gan y Bwrdd Cynghori ar Gynnwys Safon Uwch, a'r newid mewn pwysoliadau asesu yn y cymhwyster Safon Uwch llawn, cynigiwn y bydd y cymwysterau Safon UG mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach yn cynnwys dwy uned a bod yn rhaid i'r cymwysterau Safon A2 mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach gynnwys isafswm o ddwy uned ac uchafswm o dair uned.

C3a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r strwythur asesu arfaethedig ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch Mathemateg yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

C3b: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r strwythur asesu arfaethedig ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch Mathemateg Bellach yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



Safon UG a Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach

Amcanion asesu

Yr amcanion asesu a'u pwysoliadau ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch cyfredol mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach yw:

Amcan	Gofynion
AA1	dwyn i gof, dewis a defnyddio eu gwybodaeth am ffeithiau, cysyniadau a thechnegau mathemategol mewn amrywiaeth o gyd-destunau;
AA2	llunio dadleuon a phroffion mathemategol manwl gywir drwy ddefnyddio datganiadau manwl gywir, rhesymu a dod i gasgliadau rhesymegol a thrwy drin mynegiadau mathemategol, gan gynnwys llunio dadleuon estynedig ar gyfer datrys problemau sylweddol a gyflwynir ar ffurf distrwythur;
AA3	dwyn i gof, dewis a defnyddio eu gwybodaeth am fodelau mathemateg safonol er mwyn cynrychioli sefyllfaoedd yn y byd go iawn; adnabod a deall cynrychioliadau penodol sy'n cynnwys modelau safonol; cyflwyno a dehongli canlyniadau o fodelau o'r fath o ran y sefyllfa wreiddiol, gan gynnwys trafod y rhagdybiaethau a wnaed a mireinio modelau o'r fath;
AA4	deall cyd-destunau realistig cyffredin yn cael eu trosi i Fathemateg; defnyddio canlyniadau cyfrifiadau i wneud rhagdybiaethau, neu wneud sylwadau ar y cyd-destun; a, lle y bo'n briodol, darllen dadleuon mathemategol hirach, neu enghreifftiau o gymwysiadau yn feirniadol a'u deall;
AA5	defnyddio technoleg cyfrifiannell gyfoes ac adnoddau eraill a ganiateir (megis llyfrynau fformiwlâu neu dablau ystadegol) yn gywir ac yn effeithlon; deall cyfyngiadau technoleg o'r fath, a phryd i beidio â'i defnyddio; rhoi atebion â manwl gywirdeb priodol.

Cynigir yr amcanion asesu canlynol ar hyn o bryd ar gyfer y cymwysterau Safon Uwch diwygiedig mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach yn Lloegr:

Amcan	Gofynion
AA1	<p>Defnyddio a chymhwyso technegau safonol</p> <p>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dewis gweithdrefnau arferol a'u cyflawni'n gywir; • dwyn i gof ffeithiau, terminoleg a diffiniadau yn gywir
AA2	<p>Rhesymu, dehongli a chyfathrebu'n fathemategol</p> <p>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llunio dadleuon mathemategol manwl gywir (gan gynnwys profion); • Dod i gasgliadau; • Asesu dilysrwydd dadleuon mathemategol; • Esbonio eu gwaith rhesymu; • Defnyddio iaith fathemategol yn gywir. <p><i>Lle bo cwstiynau/tasgau sy'n targedu'r amcan asesu hwn hefyd yn gwobrwyo Dysgwyr am y gallu i 'ddefnyddio a chymhwyso technegau safonol' (AO1) a/neu 'ddatrys problemau o fewn cyd-destunau mathemategol a chyd-destunau eraill' (AO3), rhaid i gyfran briodol o'r marciau ar gyfer y cwstiwn/tasg gael ei phriodoli i'r amcan(ion) asesu cyfatebol.</i></p>
AA3	<p>Datrys problemau gyda mathemateg ac mewn cyd-destunau eraill</p> <p>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trosi problemau mewn cyd-destunau mathemategol a chyd-destunau nad ydynt yn fathemategol yn brosesau mathemategol; • Dehongli datrysiadau yng nghyd-destun problem a, lle y bo'n briodol, werthuso eu cywirdeb a'u cyfyngiadau; • Trosi sefyllfaoedd yn eu cyd-destun yn fodelau mathemategol; • Defnyddio modelau mathemategol; • Gwerthuso canlyniadau modelu yn eu cyd-destun, adnabod cyfyngiadau modelau a, lle y bo'n briodol, esbonio sut i'w mireinio. <p><i>Lle bo cwstiynau/tasgau sy'n targedu'r amcan asesu hwn hefyd yn gwobrwyo Dysgwyr am y gallu i 'ddefnyddio a chymhwyso technegau safonol' (AO1) a/neu 'resymu, dehongli a chyfathrebu'n fathemategol' (AO2), rhaid i gyfran briodol o'r marciau ar gyfer y cwstiwn/tasg gael ei phriodoli i'r amcan(ion) asesu cyfatebol.</i></p>

Yn unol â chymwysterau Safon UG a Safon Uwch eraill a ddiwygiwyd yng Nghymru, cynigiwn y dylai'r cymwysterau Safon Uwch diwygiedig mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach gynnwys yr un amcanion asesu â'r rhai a gynigir yn Lloegr

C4: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r amcanion asesu arfaethedig yn Lloegr fod yn berthnasol yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



Safon UG a Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach

Pwysoliadau'r amcanion asesu

Mae'r pwysoliadau amcanion asesu canlynol wedi cael eu cynnig ar gyfer y cymwysterau Safon Uwch diwygiedig mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach yn Lloegr:

Amcan	Gofynion	Mathemateg		Mathemateg Bellach	
		Safon UG	Safon Uwch	Safon UG	Safon Uwch
AA1	Defnyddio a chymhwyso technegau safonol	60%	50%	60%	60%
AA2	Rhesymu, dehongli a chyfathrebu'n fathemategol	20%	25%	O leiaf 10%	O leiaf 15%
AA3	Datrys problemau gyda mathemateg ac mewn cyd-destunau eraill	20%	25%	O leiaf 10%	O leiaf 15%

**Mae Ofqual yn cynnig gosod goddefiadau a dderbynnir ar bwysoliadau rhagnodedig yr amcanion asesu.*

Caiff y gwahaniaeth rhwng strwythurau'r cymwysterau Safon Uwch yng Nghymru a Lloegr (datgysylltu'r cymwysterau Safon UG a Safon Uwch yn Lloegr) eu hadlewyrchu ym mhwyoliadau'r amcanion asesu sy'n cael eu cynnig ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau bod modd cymharu'r cymwysterau Safon UG a Safon Uwch yng Nghymru a Lloegr. O ystyried hyn, cynigiwn y pwysoliadau amcanion asesu canlynol ar gyfer y cymwysterau Safon Uwch diwygiedig mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach yng Nghymru:

Amcan	Gofynion	Mathemateg			Mathemateg Bellach		
		Safon UG	Safon A2	Safon Uwch lawn	Safon UG	Safon A2	Safon Uwch lawn
AA1	Defnyddio a chymhwyso technegau safonol	50%	50%	50%	50%	50%	50%
AA2	Rhesymu, dehongli a chyfathrebu'n fathemategol	25%	25%	25%	O leiaf 10%	O leiaf 15%	O leiaf 15%
AA3	Datrys problemau gyda mathemateg ac mewn cyd-destunau eraill	25%	25%	25%	O leiaf 10%	O leiaf 15%	O leiaf 15%

**Yn yr un modd ag Ofqual, cynigiwn osod goddefiadau a dderbynnir ar bwysoliadau rhagnodedig yr amcanion asesu er mwyn ategu'r gwaith o lunio asesiadau.*

**O ran pwysoliadau'r amcanion asesu ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch mewn Mathemateg Bellach, nid yw pwysoliadau AA2 ac AA3 wedi'u nodi'n llawn. Mae hyn oherwydd yr elfen o ddewis yn 50% o'r cynnwys pwnc.*

C5: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r pwysoliadau amcanion asesu hyn fod yn berthnasol yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



Safon UG a Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach

Asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Mewn perthynas â chymwysterau diwygiedig yng Nghymru, dim ond os mai hyn yw'r asesiad mwyaf addas, er enghraifft i gynnal astudiaeth maes neu berfformiad cerddorol, y defnyddir asesiad nas cynhelir drwy arholiadau. Felly, dim ond pan na all arholiadau ysgrifenedig ddarparu asesiad dilyn o sgiliau neu wybodaeth benodol y defnyddir asesiad nas cynhelir drwy arholiadau. Ar hyn o bryd, caiff y cymwysterau Safon Uwch mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach eu hasesu'n llawn drwy arholiadau ysgrifenedig. Cynigiwn y dylai'r cymwysterau Safon Uwch diwygiedig mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach yng Nghymru gael eu hasesu'n llawn drwy arholiadau ysgrifenedig.

C6: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r cymwysterau Safon Uwch mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach gael eu hasesu'n llawn drwy arholiadau ysgrifenedig?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod
- Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



Safon UG a Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach

Defnyddio setiau data mawr mewn ystadegau

Defnyddio setiau data mawr mewn ystadegau

Roedd gan Banel Mathemateg a Mathemateg Bellach y Bwrdd Cynghori ar Gynnwys Safon Uwch ddau argymhelliad o ran setiau data mawr:

Argymhelliad 8: Dylid defnyddio setiau data mawr, go iawn wrth addysgu, dysgu ac asesu ystadegau yn y cymwysterau Safon UG a Safon Uwch mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach

Argymhelliad 9: Dylai eitemau asesu mewn ystadegau roi mwy o bwyslais ar ddeall data, dehongli data a dod i gasgliadau ar sail data na'r hyn a welir yn y cynnwys presennol

Cynigiwn y bydd y cymwysterau Safon Uwch mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach yng Nghymru yn ymgorffori defnyddio setiau data mawr yn yr addysgu a'r dysgu ac y bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar sail y sgiliau a gaiff eu meithrin mewn gweithgareddau o'r fath drwy arholiadau.

C7: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid asesu'r defnydd o setiau data mawr yn y cymwysterau Safon Uwch mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod
- Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



Safon UG a Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach

Cyfrifianellau

Ar hyn o bryd, ceir cyfyngiadau o ran y math o gyfrifiannell y gellir ei defnyddio mewn arholiadau Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach, er enghraifft, ni ellir defnyddio cyfrifianellau sy'n gallu gweithredu fformiwlâu mathemateg mewn arholiadau. Cynigiwn y dylid caniatáu defnyddio cyfrifianellau gwyddonol mewn asesiadau. Er mwyn sicrhau tryloywder a thegwch i bob ymgeisydd, cynigiwn y dylai'r fanyleb nodi'n glir pa fathau o gyfrifianellau a ganiateir ar gyfer unrhyw ran benodol o asesiad, ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau o ran defnyddio eu nodweddion.

C8: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid caniatáu cyfrifianellau gwyddonol mewn asesiadau Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



Safon UG a Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach

Datblygiad proffesiynol parhaus/adnoddau

C9: Yn eich barn chi, pa gymorth ac adnoddau y gallai fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod yn gwbl barod i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig?

Rhowch sylwadau



Safon UG a Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach

Effaith ar gydraddoldeb

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 rhaid i gyrff cyhoeddus roi 'sylw dyledus', wrth wneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth mewn perthynas ag unigolion na grwpiau, er mwyn cyflawni cydraddoldeb a meithrin cydberthnasau da o ran nodweddion gwarchoddedig (oedran, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailbennu rhywedd).

C10: O ystyried hyn, nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.



Safon UG a Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach

Manylion personol

Cyfranogwyr dan 16 oed - gofynnir i BEIDIO â llenwi'r adran hon.

Os ydych yn cyflenwi manylion cyswllt, efallai y byddwn yn cysylltu â chi am eglurhad am eich atebion. Ni fydd Cymwysterau Cymru (CC) yn rhannu'r manylion hyn, neu fanylion am eich atebion gydag unrhyw drydydd.

Manylion personol

Enw

Sefydliad

Cyfeiriad ebost

A ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran eich sefydliad?

- Unigolyn
- Sefydliad

Dewiswch y math o sefydliad neu dewiswch 'ddim yn berthnasol' os ydych yn ymateb fel unigolyn

- Ysgol
- Coleg
- Prifysgol
- Corff Dyfarnu Cymhwysterau
- Llywodraeth (Lleol, Cenedlaethol, DU neu'r UE)
- Ddim yn perthnasol
- Arall

A ydych yn: (dewiswch fel sy'n briodol)

- Athro
- Darlithydd Coleg
- Darlithydd y Brifysgol
- Myfyrwyr/ddisgybl
- Rhiant
- Arall